**PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL HSS-12-00(p6)**

**6 Mehefin 2000**

**9.00am i 12.15 pm**

**Ystafell Bwyllgora 2, Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**ADRODDIAD GAN BWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL AR EHANGU'R CATEGORÏAU O BOBL SYDD Â HAWL I BROFION LLYGAID AM DDIM**

**Diben**

Ym mis Mawrth, cwblhaodd y Cynulliad ei waith ar y mater a ddylid darparu profion llygaid am ddim i grwpiau ehangach o bobl.

Cyflwynir yr adroddiad drafft amgaeëdig i'w ystyried gan y Pwyllgor. Os yw'r Pwyllgor yn fodlon â'r drafft, fe'i cyflwynir gerbron y Cynulliad.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

**ADRODDIAD GAN BWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL AR EHANGU'R CATEGORÏAU O BOBL SYDD Â HAWL I BROFION LLYGAID AM DDIM**

**RHAGAIR Y CADEIRYDD**

Yn eu maniffestos etholiadol, rhoddodd Plaid Cymru a'r Democratiaid Rhyddfrydol eu cefnogaeth i ddileu taliadau am brofion llygaid. O ganlyniad, codwyd y mater gan nifer o Aelodau'r Cynulliad mewn trafodaeth lawn a chwestiynau i Ysgrifennydd y Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Felly, yn dilyn cyhoeddiad yr Ysgrifennydd Cyllid ym mis Rhagfyr 1999 i ddarparu £7.9m ychwanegol i gyllido gwelliannau iechyd, cytunwyd y byddai'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried sut i fwrw ymlaen â'r mater yng nghyd-destun strategaeth gofal iechyd sylfaenol ehangach.

Mae hyn wedi bod yn waith pwysig i'r Pwyllgor ac 'rwyf yn falch, o ganlyniad, y bydd mwy o bobl a allai fod mewn perygl o gael clefyd y llygaid yn cael y cyfle i gael diagnosis a thriniaeth mewn da bryd ac mae hyn mor bwysig wrth atal pobl rhag colli eu golwg.

Ar ran y Pwyllgor, hoffwn fynegi fy niolch i bawb a ymatebodd i’r ymarferiad ymgynghori, ac yn arbennig felly, i’r rheini a wnaeth gyflwyniad llafar i’r Pwyllgor.

O ganlyniad i adolygiad y Pwyllgor, mae arian wedi’i neilltuo i ddatblygu menter llygaid yn y flwyddyn ariannol bresennol. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn monitro effaith y fenter hon.

**KIRSTY WILLIAMS AC**

**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## CYFLWYNIAD

Yn ei datganiad ar 1 Rhagfyr 1999, cytunodd yr Ysgrifennydd Cyllid i ddyrannu arian i alluogi mwy o bobl i gael profion llygaid am ddim, i’w weithredu o 1 Hydref 2000 ymlaen, cyn belled ag y bo’r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a’r Cabinet yn fodlon â’r manteision clinigol, y grym cyfreithiol a’r flaenoriaeth gymharol o fewn cyllideb y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, byddai’n rhaid bodloni’r gost barhaus o ehangu’r profion llygaid am ddim ar ôl 2000-01 o linell sylfaen bresennol yr NHS, sef ar draul gwasanaethau eraill sy’n cael eu cyllido ar hyn o bryd.

## DULL

### Ymgynghori

Tra bo gan y Cynulliad y per i ehangu’r categorïau o bersonau sydd â hawl i brofion llygaid ar yr NHS, cynghorodd Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol nad oedd ganddo’r per i ehangu hynny i bawb. Felly, penderfynodd y Pwyllgor y dylai glywed barn y mudiadau proffesiynol a gwirfoddol i’w helpu i bennu pa grwpiau y dylid eu hystyried. Dechreuwyd y broses ymgynghori rhwng 7 Ionawr a 18 Chwefror gan lythyr a oedd yn amlinellu’r cefndir, y safbwynt cyfreithiol, casgliadau diweddar Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU a’r angen i edrych ar y mater mewn perthynas â blaenoriaethau eraill o ran adnoddau iechyd. Amageir copi o’r llythyr a rhestr o fudiadau sydd wedi’u targedu yn Atodiad 1. Ceir dadansoddiad o’r cyflwyniadau ysgrifenedig a dderbyniwyd yn Atodiad 2. Mae copïau o’r holl gyflwyniadau yn Llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Cyflwyniadau Llafar

Ar ôl ystyried y cyflwyniadau ysgrifenedig, gwahoddwyd y mudiadau canlynol i wneud cyflwyniad llafar i’r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth:

- Tîm Polisi Sgrinio Cenedlaethol

- Ffederasiwn yr Optegwyr Offthalmig a Fferyllol
- Cymdeithas yr Optometryddion, Cyngor Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Deillion, Cymru
- Cyngor y Deillion, Cymru
- Pwyllgor Optometryddol Cymru
- Cynrychiolwyr Awdurdodau Iechyd Cymru

Croesawodd y mwyafrif o'r rheini a roddodd eu barn i'r Pwyllgor y cynnig i ehangu'r categorïau o bobl sy'n gymwys ar gyfer profion llygaid am ddim. Roedd safbwyntiau'n amrywio o ran pa grwpiau o bobl ddylai gael profion llygaid am ddim. Argymhellwyd ystyried y canlynol:

- Pawb dros 40 oed oherwydd fod perygl uwch o'r clefyd glawcoma ymysg pobl dros 40 oed.
- Pawb o gefndir Asiaidd neu Affro-Garibïaidd gan fod perygl o glawcoma ymysg pobl o'r gymuned Affro-Garibïaidd, a chataractau a'r clefyd siwgr ymysg pobl o'r gymuned Asiaidd.
- Pobl â nam ar y clyw.
- Pobl 16-19 oed sy'n ymgymryd â phrentisiaeth neu gynlluniau hyfforddi.
- Pobl 16-19 oed nad ydynt yn gweithio, nac yn ymgymryd â hyfforddiant, nac mewn addysg llawn amser nac yn derbyn y lwfans chwilio am waith.
- Dioddefwyr, a phobl sy'n perthyn yn agos i rai sy'n dioddef o glefydau etifeddol ar y llygaid, megis retinitis pigmentosa.
- Pobl ag un llygad.
- Pobl sydd wedi cael gwared â chataract.
- Pobl y mae eu meddyg teulu wedi'u cyfeirio at optometrydd.

Roedd cydsyniad ynghylch yr angen i gynyddu ymwybyddiaeth am fanteision profion llygaid. Barn gyffredin arall oedd y byddai'r arbedion a ddeuai yn sgîl canfod clefydau ar y llygaid mewn da bryd yn gwneud iawn am y costau fyddai ynghlwm wrth ehangu'r categorïau o bobl sy'n gymwys i gael profion llygaid am ddim.

**Cyngor Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**

Yn dilyn y cyflwyniad llafar, derbyniodd y Pwyllgor bapur (HSS-07-00(p.2)) oddi wrth yr Ysgrifennydd Cynulliad dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a oedd yn cynnwys y cyngor canlynol oddi wrth Dr Ruth Hall, y Prif Swyddog Meddygol:

"*The aim underpinning the current deliberations regarding the extension of categories of people entitled to free NHS eye tests is to improve the detection of eye disease, so improving the visual health of the people of Wales.*

*My view which was endorsed and shared by other health professionals who gave evidence to*

*the Health and Social Services Committee is that there is little evidence of cost effective health gain by extending the categories of people entitled to free NHS eye test. The current arrangements already target those financially disadvantaged and many of those most at risk including patients with diabetes and glaucoma (including those predisposed to developing glaucoma).*

*However there is scope supported by research findings to enhance existing eye care in a number of other ways where Wales could take the lead in a preventative eye care programme"*

Roedd HSS-07-00(p.2) yn cynnwys atodlen o'r opsiynau posibl hefyd, a oedd yn cynnwys costau, tystiolaeth o wella iechyd a goblygiadau cyfreithiol. Amgaeëir copi yn Atodiad 3.

**CASGLIADAU AC ARGYMHELLION**

Daeth y Pwyllgor i'r casgliad mai'r ffordd orau o wella iechyd llygaid pobl Cymru oedd drwy lunio pecyn o opsiynau ar gyfer cael diagnosis cynnar o glefyd llygaid ymhlith y rhai sydd fwyaf agored iddo. Cytunodd yr Aelodau bod yr opsiynau a amlinellir ym mharagraff 7 o HSS-07-00 (p.2) (a gopïwyd isod er gwybodaeth) yn cynnig pecyn cynhwysfawr, ond fe ddylid datblygu'r cynigion ymhellach fel eu bod yn cynnwys grwpiau ethnig, pobl sydd â nam ar eu clyw, pobl ag un llygad a phobl sydd mewn perygl o gael retinitis pigmentosa. Mae'r cyllid ar gyfer 2000-2001.

| **OPSIWN** | **£,000** |
|---|---|
| 1). Ymchwilio a datblygu'r profion a'r dulliau o sgrinio am glawcoma. | 50 |
| 2). Gwasanaeth sgrinio am retinopathi clefyd siwgr | 500 |
| Darparu arian tuag at gostau sefydlu'r Awdurdodau Iechyd sy'n ystyried datblygiadau o'r fath. | |
| 3). Datblygiadau yng ngofal llygaid sylfaenol | 500 |
| Ceisiadau am gynlluniau peilot sy'n debyg i'r rhai hynny a geir ym Mro Taf, sy'n cynnwys cynigion i wella atgyfeiriadau o'r sector sylfaenol i'r sector uwch. | |
| 4). Targedu ymwybyddiaeth o ofal llygaid (gan gynnwys grwpiau ethnig a grwpiau eraill sydd â risg uchel. | 50 |
| 5). Llawdriniaeth pilenni'r llygaid – anelu at gwtogi ar restrau aros offthalmoleg. | 500 |
| 6). Gwasanaeth cymorth golwg isel. | 100 |
| **CYFANSWM** | 1700 |

Cytunwyd hefyd y dylid annog cynlluniau megis Cynllun Peilot Gofal Sylfaenol Awdurdod Iechyd Bro Taf, ledled Cymru. Mae hwn yn astudiaeth fer a gynigiwyd gan Grwpiau Iechyd

Lleol Caerdydd a’r Fro, ac yn anelu at wella ansawdd y gwasanaeth gofal llygaid yng ngofal sylfaenol, lleihau llwyth gwaith gwasanaethau’r ysbytai, cynyddu’r nifer o gleifion a gaiff eu trin yng ngofal sylfaenol, defnyddio’r arbenigedd cymunedol sy’n bodoli eisoes yn fwy llawn, a gwella ansawdd yr atgyfeiriadau o ofal sylfaenol i ofal uwch.

Derbyniodd yr Ysgrifennydd Cynulliad gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor, ac mae gwaith wedi dechrau eisoes ar ddatblygu’r fenter.